SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Safonau'r Gymraeg

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023 - 2024

## Cynnwys

1. Cyflwyniad........................................................................3

2. Cefndir……………………………………………………………………..........3

3. Cyfrifoldeb dros y Gymraeg.....................................................3

4. Cwynion ………………………………………………………………..........4

5. Sgiliau Cymraeg a Dysgu Cymraeg...........................................4

6. Perfformiad ..............................................................................5

7. Recriwtio …………………………………………………………………..5

8. Atodiad A (Amserlen Weithredy) …………………………………….....6

9. Atodliad B (Cyfarwyddyd i Staff) ……………………………………...12

10. Atodliad C (Monitro) …………………………………………….…..17

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfiaeth i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (gynt NIACE Cymru) ar 25 Gorffennaf 2016.

Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth hwn yn amlinellu dyletswydd Dysgu a Gwaith i gyrraedd Safonau'r Gymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, gyda'r nod i'r Gymraeg beidio cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg, sy'n rhestr o'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau ei wneud a'i ddarparu yn y Gymraeg, yn sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny. Mae'r Safonau hyn yn creu rhyddid ieithyddol i unigolion yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg.

Fel rhan o'r broses cydymffurfiaeth, mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Dysgu a Gwaith gyflwyno Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn ariannol sy'n adlewyrchu ar gydymffurfiaeth gyda gofynion Darpariaeth Gwasanaeth, Llunio Polisi, Safonau Gweithredu a Chadw Cofnodion. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynnydd y sefydliad tuag at gydymffurfio gyda'r Safonau rhwng 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.

Mae Dysgu a Gwaith yn credu ei fod yn ymateb mewn modd cadarnhaol i'r Safonau a bod ganddo gydymffurfiaeth 100% ar hyn o bryd – dangosir hyn yn yr Amserlen Gweithredu (Atodiad A).

# 2. Cefndir

Mae'r Safonau yn gyfres o ofynion sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n anelu i wella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl ei dderbyn. Mae gan Dysgu a Gwaith gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'n ofynnol i Dysgu a Gwaith gydymffurfio gyda'r Safonau dilynol:

- Darpariaeth Gwasanaeth
- Llunio Polisi
- Gweithredol
- Cadw Cofnodion

# 3. Cyfrifoldeb dros y Gymraeg

Mae Rheolwr Swyddfa Cymru a Swyddog Prosiectau Cymru yn arwain ar y gwaith hwn ar draws y sefydliad gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Cymru i sicrhau fod gweithdrefnau yn eu lle i helpu staff i ddeall eu rôl i gynorthwyo Dysgu a Gwaith wrth gyflawni'r Safonau. Caiff materion

cydymffurfiaeth yn ymwneud â'r Gymraeg o ddydd i ddydd eu rheoli gan Reolwr Swyddfa Cymru a Swyddfa Prosiectau Cymru.

Mae Cyfarwyddwr Cymru yn adrodd i Grŵp Strategaeth Dysgu a Gwaith Cymru ar y Safonau yn ystod y flwyddyn ac yn eu cyflwyno gyda'r adroddiad blynyddol cyn ei gyhoeddi. Mae'r grŵp yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn – ym misoedd Chwefror, Mehefin a Hydref.

Mae canllawiau ar gael i'r holl staff i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth (Atodiad B) sy'n delio gyda goblygiadau ymarferol dydd i ddydd cyflawni'r Safonau, tebyg sut i ateb y ffôn, sut i drefnu cyfarfodydd/cynadleddau a rhoi ystyriaeth i ddewis iaith cyfranogwyr.

Mae gwybodaeth ar ein cydymffurfiaeth gyda'n Safonau ar gael ar wefan Dysgu a Gwaith Cymru.

Mae Dysgu a Gwaith gofnodi a monitro'r holl gyfathrebiadau oedd yn dod i mewn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r daenlen hefyd yn cofnodi ym mha iaith yr ymatebwyd.  (Atodiad C).

## 4. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyda Cyflenwi  Gwasanaethau, Llunio Polisi na Gweithredol.

## 5. Sgiliau Cymraeg a Dysgu Cymraeg

Dim ond 5 aelod o staff sydd gennym yng Nghymru, ac nid yw'n effeithiol o ran cost i gyllido hyfforddiant allanol yn y Gymraeg neu sesiynau codi ymwybyddiaeth. Mae Dysgu a Gwaith Cymru yn parhau i ymchwilio'r cyfle ar gyfer hyfforddiant ar y cyd gyda sefydliadau eraill yn y trydydd sector yn ein maes i ostwng y costau.

Mae Dysgu a Gwaith Cymru yn defnyddio cyfieithydd profiadol iawn sy'n gwirio defnydd cyfredol o dermau a geirfa gyda gofynion Llywodraeth Cymru yn gyson ac yn defnyddio gwiriwr sillafu a gramadeg Cysgliad. Nid oes gennym gontract ffurfiol na chytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg hwn, ond mae gennym restr o gyflenwyr a ffefrir ar gyfer pob cyflenwr trydydd parti o waith i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a gaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson. Byddai prawfddarllen mewnol ar unrhyw wasanaethau Cymraeg yn cael ei wneud gan yr aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg a rydym hefyd yn defnyddio'r cyfieithydd ar gyfer prawfddarllen yr holl wasanaethau Cymraeg.

Mae gan Dysgu a Gwaith Cymru 5 aelod o staff yng Nghymru gyda'r sgiliau Cymraeg canlynol:

60% 3 aelod o'r staff) heb unrhyw sgiliau Cymraeg.
20% (1 aelod o'r staff) â dealltwriaeth sylfaenol.
20% (1 aelod o staff) yn rhugl yn y Gymraeg

## 6. Perfformiad

Mae’r perfformiad mewn cymhariaeth â’r amserlenni gweithredu yn dda gyda 100% o’r gweithredoedd presennol yn cael eu cyflawni’n gyson. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod ein holl ohebiaeth a gwaith papur digwyddiadau yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog a bod gohebiaeth sy’n cael ei dderbyn a’i anfon yn Gymraeg yn dal i gael ei fonitro.

## 7. Recriwtio

Ni chafodd unrhyw swyddi newydd eu recriwtio na’u hysbysebu ar gyfrer Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad monitro hyn. Pe byddem yn recriwtio yn y dyfodol, caiff yr holl swyddi ar gyfer Cymru eu hysbysebu fel rhai lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol. Cafodd hyn ei israddio o fod yn hanfodol oherwydd ein bod wedi aelod o staff sy’n rhugl yn y Gymraeg.

**Atodiad A**

# Amserlen Weithredu

| Gwasanaeth | Gweithredu | Dyddiad Gweithredu | Diweddariad cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Ymholiadau** | Atebir ymholiadau ysgrifenedig yn Saesneg neu Gymraeg yn ôl iaith yr ymholiad | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Atebir ymholiadau dros y ffôn yn Saesneg neu Gymraeg yn ôl dewis yr ymholwr. Cynhyrchwyd canllawiau i gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i gydymffurfio â'r cam hwn | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd<br><br>*Er mwyn monitro'r weithred hon ymhellach, atgoffir y staff yn gyson* |
| | Pan fydd natur ymholiad Cymraeg yn gofyn am ateb cymhleth sy'n dibynnu ar arbenigedd aelodau o'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, cynigir dewis i'r ymholydd gael ymateb llafar neu ysgrifenedig yn Saesneg neu ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Darparu gwybodaeth** | Bydd dogfennau gwybodaeth sy'n cael eu creu gan Dysgu a Gwaith Cymru ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd cyfathrebu mewnol yn cael ei anfon ymlaen fel bydd yn briodol | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Bydd dogfennau gwybodaeth ar ran sefydliadau eraill yn cael eu cynnwys fel y byddant yn cael eu cyflwyno i Dysgu a Gwaith Cymru | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynadleddau a digwyddiadau Dysgu a Gwaith Cymru** | Datblygwyd set o ganllawiau i sicrhau bod pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud i sicrhau bod pobl sy'n mynychu digwyddiadau yn gallu cymryd rhan yn y gynhadledd yn Gymraeg a Saesneg yn ôl eu dewis | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Yr holl waith papur a ffurflenni archebu ar gyfer cynadleddau yn ddwyieithog a bydd ffurflenni archebu yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Bydd staff Dysgu a Gwaith Cymru mewn cynadleddau a digwyddiadau yn cynnwys rhywun fydd yn gallu siarad Cymraeg, pan fydd yn ymarferol | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Staff ac aelodau grŵp rheoli Dysgu a Gwaith Cymru sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg ac yn cyfrannu at ddigwyddiad ar ran Dysgu a Gwaith Cymru yn cael eu hannog i wneud hynny yn Gymraeg, fel sy'n briodol | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Cyflwyniadau staff Dysgu a Gwaith Cymru mewn cynadleddau a drefnir gan sefydliadau eraill** | Bydd cyflwyniadau PowerPoint a thaflenni a ddarperir i gyd-fynd â chyflwyniadau yn ddwyieithog, pan fydd yn ymarferol<br><br>Rhoddir cyfarchiad a chyflwyniad dwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Rhoddir anogaeth i'r rhai sy'n dewis cyflwyno yn Gymraeg i wneud hynny pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ond ar hyn o bryd nid yw'n berthnasol gan nad oes gan Dysgu a Gwaith Cymru unrhyw aelodau staff rhugl yn y Gymraeg |
| | Dylai staff sy'n hyderus ac yn barod i gyflwyno yn Gymraeg sefydlu pa iaith fyddai orau gan y sefydliad sy'n trefnu | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ond ar hyn o bryd nid yw'n berthnasol gan nad oes gan Dysgu a Gwaith Cymru unrhyw aelodau staff rhugl yn y Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Grwpiau a rhwydweithiau a wasanaethir gan Dysgu a Gwaith Cymru gan gynnwys y grŵp strategaeth ac unrhyw is-bwyllgorau, grwpiau cynghori prosiectau** | Unwaith y flwyddyn rhaid i bob rhwydwaith, pwyllgor neu is-bwyllgor ystyried dewisiadau ieithyddol ei aelodau a phenderfynu a fydd y grŵp yn:-<br>• Gweithredu yn Gymraeg neu Saesneg<br>• Angen offer cyfieithu ar y pryd<br>• Angen gwaith papur Saesneg, Cymraeg neu ddwyieithog<br>Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu seilio ar ystyriaethau cyllidebol | Yng nghyfarfod cyntaf pob grŵp ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer cyfredol gan y Grwpiau canlynol:<br>• *Grŵp Strategaeth Cymru*<br>• *Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymru*<br>• *Rhwydwaith ESOL*<br>• *Grŵp Llywio Taith* |
| **Cyhoeddiadau Dysgu a Gwaith Cymru** | Pan geisir cyllid ar gyfer prosiect sy'n cynnwys cyhoeddi Llyfrau, Canllawiau, Pecynnau Gwybodaeth, CDs ac unrhyw gyhoeddiadau eraill, dylai'r costau gynnwys cynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog pan fydd hynny'n bosibl.<br>Pan fydd angen cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân dylai'r ddwy fersiwn:-<br>• Gael eu cyhoeddi ar yr un pryd<br>• Fod o ansawdd tebyg a chynnwys tebyg iawn<br>• Gynnwys datganiad bod fersiwn yn yr iaith arall ar gael<br>Pan ofynnir am hynny dylai copi yn Gymraeg a Saesneg fod ar gael am yr un pris â chopi mewn un iaith. | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dull cyfathrebu:**<br><br>**Ffôn** | Bydd negeseuon peiriannau ateb neu negeseuon llais yn ddwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Bydd swydd derbynnydd ffôn rheng flaen yn cael ei dynodi yn un lle mae siaradwr Cymraeg yn hanfodol | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd | |
| | Paratowyd canllawiau ar gyfarchion dwyieithog a sut i ymdrin â galwr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg y mae gofyn iddynt ateb y ffôn | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Cyfathrebu ysgrifenedig- hyn yn cynnwys e-bost** | Bydd llythyron neu negeseuon e-bost a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg. Gall derbynnydd yr ymateb ddewis cael ymateb yn Saesneg os oes angen ymateb ar unwaith | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Bydd llythyrau, negeseuon e-bost a chylchlythyrau a anfonir gan Dysgu a Gwaith Cymru at yr aelodau yn gyffredinol, grwpiau, rhwydweithiau neu at unigolyn y gwyddys ei ddewis yn cael eu hanfon yn ddwyieithog fel arfer. | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd yng Nghymru. |
| | Bydd llythyrau at unigolyn gan aelod unigol o staff yn yr iaith gyfathrebu arferol rhyngddynt | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Bydd cylchlythyrau, taflenni briffio, taflenni gwybodaeth, dogfennau ymgynghori, taflenni, ffurflenni neu unrhyw ffurf arall o ddeunydd ysgrifenedig cyffredinol a gynhyrchir gan Dysgu a Gwaith Cymru yn ddwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Delwedd Gyhoeddus** | | | |
| **Logo** | Mae gan Dysgu a Gwaith Cymru logo dwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddion** | Bydd holl arwyddion Dysgu a Gwaith Cymru mewn swyddfeydd neu mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd yn ddwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Proforma papur ac electronig** | Bydd pob papur pennawd, slipiau cyfarch, pennawd ffacs, pennawd e-bost ac unrhyw ddeunyddiau profforma arall sy'n cyfrannu at y ddelwedd gyhoeddus yn ddwyieithog | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Posteri** | Bydd posteri a grëwyd i'w defnyddio gan Dysgu a Gwaith Cymru yn ddwyieithog fel arfer. Pan fydd ystyriaethau eraill yn atal hyn gall fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân gael ei greu ond rhaid i'r canllawiau ar gyfer eu defnyddio argymell y dylai'r ddau boster gael eu harddangos | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Taflenni hyrwyddo** | Bydd taflenni a grëwyd i'w defnyddio gan Dysgu a Gwaith Cymru yn ddwyieithog oni bai eu bod wedi eu creu yn benodol ar gyfer cynulleidfa nad yw eu prif iaith yn Gymraeg na Saesneg | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Arddangosfeydd** | Bydd unrhyw arddangosfeydd gan gynnwys fideos a ddefnyddir i hysbysebu Dysgu a Gwaith Cymru a'i wasanaethau a'i weithgareddau naill ai yn ddwyieithog neu yn y ddwy iaith a bydd y ddau yn cael eu harddangos | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Hysbysebion** | | | |
| **Mewn print** | Bydd hysbysebion y telir amdanynt am swyddi i staff, contractau, gwasanaethau a ddarperir ac ati yn ddwyieithog fel arfer. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, gall hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig, ond mae angen nodyn esboniadol yn Saesneg | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Teledu a Radio** | Bydd hysbysebion yn yr iaith sy'n addas i'r sianel. Bydd cydbwysedd yr hysbysebu Cymraeg/Saesneg yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gynulleidfa a dargedir | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| **Gwaith ar y Cyfryngau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datganiadau i'r wasg** | Rhyddheir datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau priodol yn y ddwy iaith ar yr un pryd | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd |
| | Gwneir trefniadau i ddarparu llefarwyr cymwys i ymateb i ymholiadau'r wasg yn y naill iaith neu'r llall | Ymarfer presennol | Yn cael ei gyflawni ac yn parhau yn ymarfer ar hyn o bryd<br><br>*Yn ymarferol, gall y cyfryngau ddymuno siarad ag arbenigwr a all beidio â bod yn siaradwr Cymraeg. Pan fydd yn addas cynigir siaradwr Cymraeg bob amser.* |

**Atodiad B**

SEFYDLIAD **DYSGU** A **GWAITH**
**LEARNING** AND **WORK** INSTITUTE

**Sefydliad Dysgu a Gwaith – Safonau'r Gymraeg Cymru a Lloegr**

**Cyfarwyddyd i Staff**

Mae'n gyfrifoldeb i'r HOLL staff hyrwyddo logo dwyieithog Dysgu a Gwaith boed yn siarad Cymraeg neu beidio.

Gofynnir i staff sy'n siarad Cymraeg gefnogi'r rhai nad ydynt yn rhugl i roi gwasanaeth da i siaradwyr Cymraeg a rhoddir anogaeth iddynt helpu dysgwyr o ran ynganu ac ymatebion priodol.

Bydd staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg yn cael eu cefnogi.

Rhoddir anogaeth i staff sydd yn dysgu Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

**Ateb y ffôn**

Y cyfarchiadau arferol wrth ateb y ffôn yw:-

Yn y bore:- "Bore da.  Sefydliad Dysgu a Gwaith | Learning and Work Institute, Good Morning"

Neu yn y prynhawn:- "Prynhawn da. Sefydliad Dysgu a Gwaith | Learning and Work Institute, Good afternoon"

Pan na fydd yr unigolyn sy'n ateb y ffôn yn siarad Cymraeg bydd y sgwrs fel arfer yn parhau yn Saesneg.

Fodd bynnag, os bydd y galwr yn parhau yn Gymraeg, yna mae gan staff sydd yn siarad ychydig o Gymraeg ddewis o ran sut i barhau.

Os byddwch yn sylweddoli bod y galwr yn gofyn am aelod penodol o'r staff, a bod yr unigolyn i mewn, gallwch ddweud :-

O ddewis

"Dalier ar y lein os gwelwch yn dda" a'i drosglwyddo

NEU

"Hold the line please" a'i drosglwyddo.

Os na fyddwch yn deall, yna mae nifer o ddewisiadau:-

Os oes siaradwr Cymraeg ar gael, gallwch ddweud:

> "Mae'n flin gennyf. Dw'i ddim yn siarad Cymraeg, yn dda. Would you like to speak to someone who does, or can I help?"

NEU

> "I'm sorry I don't speak Welsh. Would you like to speak to someone who does, or can I help?"

Os nag oes siaradwr Cymraeg ar gael, yna fe ddylech ddweud:

> "I am sorry there is no Welsh speaker available at the moment would you like someone to ring you back or can I help you?"

Disgwylir i staff sy'n ateb y ffôn sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ymateb yn ôl dewis iaith y galwr.

Gall cardiau atgoffa gael eu darparu i nodi'r ymatebion priodol.

**Cynadleddau a Digwyddiadau**

Mae pob cynhadledd a digwyddiad yn rhan o ddelwedd gorfforaethol Dysgu a Gwaith. Yn anaml y mae'n bosibl darparu cynhadledd neu ddigwyddiad sy'n hollol ddwyieithog. Fodd bynnag, gellir gwneud llawer i sicrhau bod y modd y cyflwynir y digwyddiad yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru ac ymrwymiad Dysgu a Gwaith i ddarparu gwasanaethau dwyieithog a chynnig dewis o ran pa iaith y maent yn ei defnyddio i siaradwyr y ddwy iaith.

Dylid gosod y nod bob amser o fod â rhywfaint o gynnwys Cymraeg a'i gynyddu pan fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr ardaloedd lle byddech yn disgwyl i gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg fod yn bresennol.

*Dewis y rhaglen*

Rhoddir anogaeth i staff sy'n datblygu rhaglen cynhadledd neu ddigwyddiad i:

- Ddod o hyd i gadeirydd neu gyflwynydd dwyieithog.
- Ddarparu rhywfaint o fewnbwn Cymraeg (siaradwr, fideo ac ati).
- Gynnig dewis i areithwyr o ran yr iaith y maent yn dymuno ei defnyddio i wneud eu cyflwyniad.
- Ddarparu cyfieithu ar y pryd fel bydd yn briodol (gweler isod).
- Roi gwybod i'r cadeirydd/cyflwynydd y dylai annog cyfraniadau o'r llawr yn y naill iaith neu'r llall.
- Geisio darparu rhyw gyfle gweithdy neu grŵp bach i ddefnyddio'r Gymraeg.

*Gweinyddu*

- Dylai'r holl waith papur gweinyddol ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau fod yn ddwyieithog.
- Dylai ffurflenni archebu gynnwys cwestiwn am ddewis iaith.
- Dylai arwyddion a ddefnyddir o gwmpas y digwyddiad fod yn ddwyieithog.
- Pan fydd yn bosibl dylai o leiaf un o'r staff derbyn fod yn ddwyieithog. Os nag oes unrhyw aelod o'r staff derbyn yn gallu defnyddio Cymraeg llafar yna dylid gofyn i staff Cymraeg eraill sy'n mynychu'r gynhadledd i gynnig cefnogaeth.

*Cyfieithu ar y pryd*

Os bydd unrhyw gyfraniad at y digwyddiad i fod yn Gymraeg yn unig, rhaid darparu cyfieithu ar y pryd (neu is-deitlau ar gyfer ffilmiau/fideo), a dylai'r costau gael eu cyfrif yng nghyllideb y digwyddiad.

Os yw'r cadeirydd/cyflwynydd yn ddwyieithog, ac yn barod i gyflawni'r rôl yn ddwyieithog, ond nad oes unrhyw gyflwyniad arall yn mynd i fod yn Gymraeg, yna dylid darparu cyfieithu ar y pryd os bydd:

> Mwy na 15% o'r cynrychiolwyr neu 10 o bobl wedi mynegi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg, fel y bydd adnoddau'n caniatáu.

Os na fydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu, dylai'r cynrychiolwyr sydd wedi mynegi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg gael eu hysbysu o'r penderfyniad cyn y digwyddiad. Gellir gofyn i gadeirydd/cyflwynydd dwyieithog annog y cyfranogwyr i wneud cyfraniadau byr (fel cwestiynau o'r llawr) sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, i wneud hynny, a bydd y cadeirydd/cyflwynydd (neu aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg) yn gweithredu fel cyfieithydd.

*Cyflwyniadau a gwybodaeth*

Pan fydd cyflwyniad byw yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg dylid cael cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg.

Dylai unrhyw gyfraniad sydd wedi ei ffilmio at y rhaglen yn Gymraeg fod ag is-deitlau. Os yw'r cyfraniad hwn yn cael ei gyflenwi gan sefydliad arall ac nad yw'n bosibl ychwanegu is-deitlau rhaid rhoi crynodeb o'r cynnwys yn Saesneg.

Os bydd nodiadau ar gyfer cyflwyniad yn cael eu rhoi yn Gymraeg, dylid eu cyfieithu.

Dylai cyflwyniadau Dysgu a Gwaith fod yn ddwyieithog o ddewis, gydag unrhyw nodiadau'n ddwyieithog hefyd.

Rhaid i gyflwyniadau gan gynrychiolwyr sefydliadau eraill yn Saesneg nid oed angen i fod cyfieithu i'r Gymraeg.

*Rôl y Cadeirydd neu'r Cyflwynydd*

Pan fydd Cadeirydd neu Gyflwynydd yn barod i weithredu'n ddwyieithog, rhaid bod yn ofalus na ddylid manteisio ar y cadeirydd/cyflwynydd a'u gallu. Rhaid rhoi ystyriaeth i faint o'r cyflwyniad ddylai'r Cadeirydd/cyflwynydd ei gyflwyno, eu gallu i weithio'n hollol ddwyieithog a'r straen ychwanegol y mae hynny'n ei roi. Dylid hefyd ystyried yr amser ychwanegol fydd ei angen i gyflwyno popeth ddwywaith. Gall fod yn well gofyn i'r Cadeirydd/cyflwynydd:

- Wneud hynny yn Gymraeg yn unig a darparu cyfieithu ar y pryd,
- Gyflwyno fel bydd yn briodol i'r rhan o'r rhaglen h.y. cyflwyno darnau Saesneg yn Saesneg a'r darnau Cymraeg yn Gymraeg.

*Cefndir ac amgylchedd yn gyffredinol*

Mae posteri, arddangosfeydd ac ati dwyieithog yn help i'r ddelwedd ac os bydd cyfle i ddefnyddio cerddoriaeth gefndir neu adloniant mae cynnwys rhywfaint o ddeunydd Cymraeg yn help mawr.

**Cyrsiau Hyfforddi**

*Cyrsiau Newydd*

Pan fydd Dysgu a Gwaith yn datblygu cyrsiau hyfforddi newydd dylai'r gallu i gyflwyno'r cwrs yn Gymraeg gael ei gynnwys yn y cynllun datblygu. Dylid gallu cael achrediad yn y naill iaith neu'r llall. Yn y cyfnod cyflwyno dylid cynnig nifer o gyrsiau

yn Gymraeg gan adlewyrchu'r boblogaeth a sicrhau'r mynediad gorau i siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Enghraifft:

Mae 4 cwrs yn cael eu rhedeg ar draws Cymru

| | |
|---|---|
| Cwrs Cymraeg yn | Aberystwyth sy'n rhesymol o hygyrch i'r ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o Gymraeg yn cael ei siarad |
| Cyrsiau Saesneg yn | Llandudno ar gyfer Gogledd Cymru |
| | Y Fenni ar gyfer y De Ddwyrain a'r Gogledd Ddwyrain |
| | Caerfyrddin ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru |

*Cyrsiau sydd wedi sefydlu*

Yn aml bydd Dysgu a Gwaith yn cyflwyno neu drefnu hyfforddiant sydd wedi cael ei ddatblygu yn rhywle arall (gan Dysgu a Gwaith yn gyffredinol) neu yn hwyluso hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno gan sefydliad arall. Dan yr amgylchiadau hyn:

- Bydd y gwaith papur gweinyddol yn ddwyieithog.
- Bydd y ffurflen archebu yn cynnwys y cwestiwn am ddewis iaith a bydd y ganran o unigolion sy'n gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg yn cael ei chofnodi i asesu'r galw yn y dyfodol.
- Bydd y deunyddiau hyfforddi'n cael eu cyfieithu.
- Bydd cynrychiolwyr sy'n mynegi'r Gymraeg fel eu dewis yn cael copïau Cymraeg ynghyd â'r deunyddiau gwreiddiol.
- Bydd deunyddiau hyfforddi yn y ddwy iaith yn cael eu darparu yn electronig.
- Gofynnir i hyfforddwyr gynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg weithio gyda'i gilydd mewn unrhyw weithgaredd grŵp bach os yw hyn yn ymarferol.

# Atodiad C

## Safonau'r  Gymraeg – monitro cyfathrebiadau

Cyfathrebiadau yn y Gymraeg yn unig

| Date | Organisation | Correspondence | | | Response | | | Subject |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Email | Phone | Letter | English | Welsh | Bilingual | |
| 17/04/2023 | Dysgu Cymraeg, Morgannwg | ✓ | | | | | ✓ | Cyflwyno enwebiad Ysbrydoli |
| 25/05/2023 | Comisiynydd y Gymraeg | ✓ | | | | | ✓ | Ymateb i gydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg |
| 01/06/2023 | Dysgu Cymraeg Aberystwyth | ✓ | | | | ✓ | | Ymholiad am gostau teithio |
| 01/06/2023 | Comisiynydd y Gymraeg | ✓ | | | | | ✓ | E-bost am gydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg |
| 20/06/2023 | Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg | | | | | | ✓ | Cyflwyno ffurflen Rhanddeilid yn Gymraeg |
| 04/08/2023 | Llywodraeth Cymru | ✓ | | | | ✓ | | Anfon ymddiheuriadau i Wobrau Ysbrydoli! |
| 09/10/2023 | Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | ✓ | ✓ | | | ✓ | | Gohebiaeth amrywiol am faterion polisi a’u bwrdd ymgynghorol |
| 10/10/2023 | Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | | ✓ | | | ✓ | | Sgwrs am fwrdd ymgynghori’r Ganolfan |
| 20/10/2023 | Y Brifysgol Agored | ✓ | | | | | ✓ | Gohebiaeth am bolisi/ Wythnos Addysg Oedolion |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26/10/2023 | Myfyriwr o Brifysgol Caerdydd | ✓ | ✓ | | | ✓ | | Fel rhan o raglen Gyrfa Hyderus Prifysgol Caerdydd |
| 03/08/2023 | FSB Cymru | ✓ | ✓ | | | ✓ | | Ynghylch Grŵp Strategaeth Dysgu a Gwaith |
| 23/06/2023 | Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | ✓ | | | | ✓ | | Ynghylch eu prosiect Taith ac ymgysylltu gyda chyflogwyr |
| 15/01/2024 | Prifysgol Caerdydd | ✓ | | | | | ✓ | Ynghylch Grŵp Strategaeth Dysgu a Gwaith |
| | IAITH | ✓ | | | | ✓ | | Ynghylch cyrsiau hyfforddiant Cymraeg |
| 09/01/2024 | Prifysgol Aberystwyth - Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin | ✓ | | | | | ✓ | E-bost am y gwobrau tiwtor |
| 14/01/2024 | Dysgu Cymraeg Gwent | ✓ | | | | ✓ | | E-bost am y gwobrau tiwtor |
| 22/01/2024 | Awdur (yn ysgrifennu fel Meredith Rose) | ✓ | | | | | | E-bost am y gwobrau tiwtor |
| 22/01/2024 | Prifysgol Bangor – Dysgu Cymru Gogledd Orllewin | ✓ | | | | | ✓ | E-bost am y gwobrau tiwtor |
| 23/02/2024 | Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | ✓ | | | | ✓ | | E-bost am y gwobtau tiwtor |
| 22/03/2024 | Heb ddweud | ✓ | | | | ✓ | | Gofyn am gopi o'n hadroddiad effaith |